# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

## 14 Mawrth 2025

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) ac yn yr Alban (SC037750).

# Cyflwyno'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

1. Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw gosod fframwaith i gefnogi'r berthynas waith rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

2. Mae'r berthynas waith rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn rhan o strwythur system sicrwydd yng Nghymru sy'n hyrwyddo diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel.

3. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi ymrwymo i edrych ar ffyrdd o ddatblygu gwaith partneriaeth mwy effeithiol ac effeithlon er mwyn hyrwyddo ansawdd a diogelwch yn eu cylchoedd gwaith rheoleiddio.

4. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion gan aelodau o'r cyhoedd sydd yn dweud eu bod wedi dioddef anghyfiawnder o ganlyniad i fethiant gwasanaeth neu gamweinyddu gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys darparwyr gofal iechyd.

5. Y Cyngor Meddygol Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn y DU. Mae cyfrifoldebau a swyddogaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol i'w gweld yn Atodiad A.

6. Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn drech na chyfrifoldebau a swyddogaethau statudol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac nid oes modd ei orfodi o dan y gyfraith. Fodd bynnag, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn cytuno i lynu wrth gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

# Egwyddorion cydweithredu

7. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn bwriadu i'w perthynas waith gael ei nodweddu gan yr egwyddorion canlynol:

    a. Yr angen i wneud penderfyniadau sy'n hyrwyddo diogelwch cleifion

    b. Parch at statws annibynnol pob sefydliad

    c. Yr angen i gynnal hyder y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn y ddau sefydliad

d. Bod yn agored ac yn dryloyw rhwng y ddau sefydliad, o ran pryd mae cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth yn cael eu hystyried yn angenrheidiol neu’n briodol ai peidio.

e. Yr angen i ddefnyddio adnoddau’n effeithiol ac yn effeithlon.

f. Bydd y partïon yn agored ac yn dryloyw yn eu penderfyniadau ynglŷn â phryd a ble mae’n briodol iddyn nhw gydweithio.

# Meysydd cydweithio

8. Mae’r berthynas waith rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a’r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn golygu cydweithio yn y meysydd canlynol. Mae enwau cysylltiadau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth pob sefydliad i’w gweld yn Atodiad C.

**Croesgyfeirio pryderon**

9. Pan fydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu’r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn dod ar draws pryder sy’n dod o fewn cylch gwaith cyfrifoldeb y llall, bydd yn rhannu’r pryder a’r wybodaeth berthnasol yn brydlon â’r cyswllt priodol yn y sefydliad arall. Os yw’n ymddangos bod mater yn ymwneud â diogelwch cleifion a/neu weinyddu cyfiawnder, ni fydd y sefydliad sy’n atgyfeirio yn aros hyd nes y bydd ei ymchwiliad ei hun wedi dod i ben cyn gwneud yr atgyfeiriad.

10. Yn benodol, bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyfeirio at y Cyngor Meddygol Cyffredinol:

    a. Unrhyw bryderon a nodwyd a gwybodaeth berthnasol am feddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia a allai godi amheuaeth ynghylch eu haddasrwydd i ymarfer.

    b. Unrhyw bryderon a nodwyd a gwybodaeth berthnasol am sefydliad gofal iechyd neu ran o sefydliad gofal iechyd a allai godi amheuaeth ynghylch ei addasrwydd fel amgylchedd dysgu ar gyfer myfyrwyr meddygol, meddygon, cymdeithion meddygol neu gymdeithion anaesthesia dan hyfforddiant.

    c. Unrhyw bryderon a nodwyd a gwybodaeth berthnasol am sefydliad gofal iechyd a allai godi amheuaeth ynghylch cadernid ei system arfarnu a llywodraethu clinigol.

11. Yn benodol, bydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

    a. Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol am sefydliad gofal iechyd neu wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, a allai godi amheuaeth ynghylch ansawdd a diogelwch y gwasanaethau mae'n eu darparu.

12. Os yw pryder yn ymwneud â chylch gwaith y sefydliad arall, ond bod ansicrwydd a yw'r pryder yn ddigon difrifol i sbarduno ei brosesau, dylid trafod hyn gydag un o'r cysylltiadau allweddol a nodir yn Atodiad C.

**Ceisio a rhoi cyngor**

13. Mae pob sefydliad yn cytuno i ystyried unrhyw gais i roi cyngor i'r llall ar faterion sydd o fewn ei gymhwysedd. Bydd darparu cyngor yn dibynnu ar argaeledd adnoddau, ar gwmpas y cyngor yn dod o fewn swyddogaethau'r sefydliad, ac fel arall ar ddiffyg gwrthdaro â swyddogaethau'r sefydliad y gofynnwyd iddo ddarparu'r cyngor hwnnw. Nid yw'r cyngor hwn yn disodli'r angen i bob parti gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain nac asesu effaith eu polisïau a'u hadroddiadau eu hunain os oes angen. Nid yw cyngor gan un mudiad i fudiad arall yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.

**Hyfforddiant ac arweiniad**

14. Bydd pob sefydliad yn ystyried ceisiadau i ddarparu deunydd sy'n ymwneud â hyfforddiant neu arweiniad i'r llall ar faterion sydd o fewn ei gylch gwaith neu ei gymhwysedd. Bydd cyflawni ceisiadau o'r fath yn dibynnu ar argaeledd adnoddau a diffyg gwrthdaro â'i swyddogaethau neu ei bolisïau ei hun.

15. Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol gynnal hyfforddiant ar y cyd, neu gyhoeddi canllawiau ar y cyd, os yw hynny er budd y ddau sefydliad a defnyddwyr y gwasanaethau. Bydd modd datblygu a/neu gyflwyno hyfforddiant ar y cyd fel y bo'n briodol.

**Adrodd**

16. Gall y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, i'r graddau y mae fframwaith a swyddogaethau statudol pob sefydliad yn caniatáu hynny, baratoi adroddiad ar y cyd ar unrhyw fater os yw hyn er budd cyflawni swyddogaethau pob sefydliad yn effeithlon ac yn effeithiol.

**Cyfathrebiadau allanol ar y cyd**

17. Gall pob sefydliad geisio cynnwys y llall mewn cyfarfodydd, cynadleddau a thrafodaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â gwaith ar y cyd.

18. Pan fo’n briodol, a phan fo hynny er budd y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gall y naill sefydliad, gyda chytundeb y sefydliad arall, gyhoeddi datganiadau i’r wasg ar y cyd neu ddatganiadau cyhoeddus ar faterion neu achosion sy’n sylweddol o fewn cylch gwaith y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

19. Bydd y naill sefydliad hefyd, pan fo’n briodol yn eu barn nhw, yn cysylltu â chyswllt cyfryngau’r llall ynglŷn â materion cyfredol sy’n debygol o fod o ddiddordeb i’r cyhoedd. Ni fydd unrhyw ddatganiadau ar y cyd i’r wasg yn cael eu cyhoeddi heb gytundeb y ddau Barti. Nid yw hyn yn effeithio nac yn cyfyngu ar ymreolaeth y naill sefydliad na’r llall i gyhoeddi datganiadau i’r wasg.

**Cydweithio strategol**

20. Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a’r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn ystyried amgylchiadau lle gallai eu hamcanion gael eu cyflawni orau drwy gydweithio. Bydd y naill barti yn ceisio ystyried y llall wrth gynllunio eu rhaglenni gwaith a nodi unrhyw bosibiliadau ar gyfer gweithio ar y cyd. Gall cyfleoedd ar gyfer cydweithio gynnwys ymchwil ar y cyd, cyfraniad data a gweithgareddau eraill wrth iddyn nhw gael eu nodi.

# Cyfnewid gwybodaeth

21. Gall cydweithio rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a’r Cyngor Meddygol Cyffredinol ofyn i wybodaeth gael ei chyfnewid. Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cydweithio a chyfnewid gwybodaeth sydd wedi’i nodi yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac unrhyw gytundebau atodol yn ystyried ac yn cydymffurfio â chyfraith preifatrwydd, gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data 2021, Deddf Diogelu Data 2018, y gofynion Cyfraith Gyffredin o ran cyfrinachedd, adran 76 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, yn ogystal ag unrhyw godau ymddygiad, fframweithiau neu bolisïau eraill sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a’r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Yn benodol, bydd y ddau barti’n cydymffurfio ag unrhyw ofynion llywodraethu sy’n ymwneud â diogelu a chadw data personol a phrosesu data yn unol â hawliau statudol unigolion.

22. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn berthnasol i’r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Os bydd un sefydliad yn derbyn cais am wybodaeth sy’n deillio o’r llall, bydd y sefydliad sy’n derbyn yn ceisio barn y llall cyn datgelu gwybodaeth o’r fath ac yn ystyried unrhyw farn o’r fath wrth benderfynu sut i ymateb i’r cais am yr wybodaeth honno. Ni fydd y naill sefydliad yn rhwym wrth safbwynt y llall a bydd y naill yn gyfrifol am bennu’r ymateb i unrhyw gais y bydd yn ei dderbyn.

23. Pan fydd deunydd cyfrinachol a gafwyd gan y parti gwreiddiol, neu a rannwyd ganddo, yn cael ei ddatgelu'n anghywir gan y parti sy'n dal yr wybodaeth, bydd y parti hwn yn dwyn hyn i sylw'r parti gwreiddiol yn ddi-oed. Mae hyn yn ychwanegol at rwymedigaethau i roi gwybod am achos o dor diogelwch data personol o dan GDPR y DU a/neu Ddeddf Diogelu Data 2018 pan mae data personol wedi'i gynnwys yn yr wybodaeth a ddatgelwyd.

24. Cytunir ar fesurau diogelwch priodol i sicrhau bod data personol yn cael ei drosglwyddo'n ddiogel yn unol â sensitifrwydd yr wybodaeth.

## Datrys anghytundeb


25. Bydd unrhyw anghytundeb rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol fel arfer yn cael ei ddatrys ar lefel weithredol. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd modd ei ddwyn i sylw'r cysylltiadau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad C a all wedyn ei uwchgyfeirio drwy'r rheini sy'n gyfrifol, hyd at Brif Weithredwr y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Ombwdsmon a fydd wedyn yn gyd-gyfrifol am sicrhau datrysiad y cytunir arno.

## Hyd ac adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn

26. Daeth y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn i rym yn wreiddiol ar 14 Mawrth 2025 pan gafodd ei lofnodi gan Brif Weithredwr y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Ombwdsmon. Nid oes terfyn amser ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a bydd yn parhau i gael effaith oni bai fod angen newid yr egwyddorion sy'n cael eu disgrifio neu eu bod yn peidio â bod yn berthnasol. Mae modd adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar unrhyw adeg ar gais y naill barti neu'r llall, ond dylai gael ei adolygu bob tair blynedd o leiaf.

27. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi cysylltiadau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn Atodiad C a bydd y rhain yn cysylltu yn ôl yr angen i sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei ddiweddaru ac i nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn y berthynas waith rhwng y ddau sefydliad.

## Llofnod

| | |
|---|---|
| Michelle Morris<br>**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** | Gethin Matthew-Jones<br>Pennaeth Cyngor Meddygol Cyffredinol Cymru<br>**Y Cyngor Meddygol Cyffredinol** |
| Llofnod<br> | Llofnod<br> |
| Dyddiad<br>14 Mawrth 2025 | Dyddiad<br>10 Mawrth 2025 |

# Atodiad A

## Cyfrifoldebau a swyddogaethau

28. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn cydnabod cyfrifoldebau a swyddogaethau ei gilydd a byddan nhw'n ystyried y rhain wrth weithio gyda'i gilydd.

**Cyfrifoldebau a swyddogaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

29. Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rôl statudol i ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol yng Nghymru. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn ymchwilio i gwynion lle gallai aelodau o gyrff llywodraeth leol fod wedi torri cod ymddygiad yr awdurdod hwnnw. Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghlwm wrth unrhyw gorff llywodraeth. Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw:

- Ystyried cwynion am gyrff cyhoeddus, rhai gwasanaethau gofal iechyd (dan amgylchiadau penodol) a gofal cymdeithasol a lliniarol sy'n cael eu trefnu neu eu hariannu'n breifat.
- Ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r cod ymddygiad.
- Cywiro pethau a rhoi pobl yn y sefyllfa y byddent ynddi pe na baent wedi dioddef anghyfiawnder, a gweithio i sicrhau'r canlyniad gorau posibl os oes anghyfiawnder wedi digwydd.
- Gweithio gyda chyrff i sicrhau bod y gwersi drwy ymchwiliadau'n cael eu dysgu.
- Ymgymryd â'i "Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun" i faterion sydd o fudd ehangach i'r cyhoedd o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon
- Annog gwelliant parhaus mewn safonau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy gynorthwyo cyrff i wneud pethau'n iawn y tro cyntaf – i weithio i leihau nifer y cwynion trwy helpu darparwyr gwasanaethau i wella'u penderfyniadau.

**Cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol**

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) ac yn yr Alban (SC037750).

30. Mae cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi'u nodi'n bennaf yn Neddf Meddygaeth 1983 (y Ddeddf Feddygaeth), Gorchymyn Cymdeithion Anaesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024 a Gorchymyn nesaf y Cyngor Meddygol Cyffredinol*.

31. Y Cyngor Meddygol Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn y DU.

Rydym ni'n gweithio gyda nhw a rhanddeiliaid eraill i wneud y canlynol:

- gosod safonau gofal cleifion ac ymddygiad proffesiynol y mae angen i feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia eu bodloni.
- sicrhau bod meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn cael yr addysg sydd ei hangen arnyn nhw i ddarparu gofal da a diogel i gleifion.
- gwirio pwy sy'n gymwys i weithio fel meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia yn y DU a gweithio gyda nhw a'u cyflogwyr i gadarnhau eu bod nhw'n aros yn gyfredol ac yn bodloni'r safonau proffesiynol rydym ni'n eu gosod.
- rhoi arweiniad a chyngor i helpu meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia i ddeall yr hyn sydd i'w ddisgwyl ganddynt.
- ymchwilio i bryderon y gallai diogelwch cleifion, neu hyder y cyhoedd mewn meddygon, cymdeithion meddygol neu gymdeithion anaesthesia fod mewn perygl, a chymryd camau os oes angen.

* Nid yw'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cadarnhau eto enw'r gorchymyn sy'n ymwneud â'r tri phroffesiwn (meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia) o dan reoliad y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf o'r cytundeb, os bydd enw'r gorchymyn dan sylw wedi cael ei gadarnhau erbyn y dyddiad hwnnw.

# Atodiad B

## Sail Gyfreithiol dros rannu gwybodaeth bersonol rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ill dau yn rheolyddion data sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain at ddibenion GDPR y DU a, lle bo hynny'n briodol, GDPR yr UE.

Pan fydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn penderfynu y dylai data personol sydd ganddo gael ei rannu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau, sail gyfreithiol y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer rhannu data o dan GDPR y DU yw:

- Rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6(1)(c). Mae Deddf Meddygaeth 1983 yn creu dyletswydd i gydweithredu â phartïon perthnasol
- Tasg gyhoeddus (Erthygl 6(1)(e) Mae Deddf Meddygaeth 1983 yn creu porth statudol i rannu gwybodaeth Addasrwydd i Ymarfer pan fo hynny er budd y cyhoedd.

Pan fydd hyn yn cynnwys data categori arbennig, sail gyfreithiol y GMC o dan Erthygl 9 o GDPR y DU yw Erthygl 9(2)(g) – rhesymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd gyda sail gyfreithiol glir. Yr amod o fudd sylweddol i'r cyhoedd yw amod 6: at ddibenion statudol a dibenion y llywodraeth o dan Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018.

Pan fydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn penderfynu y dylai data personol sydd ganddo gael ei rannu â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu oherwydd bod y prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau tasgau cyhoeddus (Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU).  Mae dyletswyddau tasgau cyhoeddus yr Ombwdsmon wedi eu nodi yn Neddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru).  O dan adran 69(2)(j) o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mae modd datgelu gwybodaeth os yw'n "debygol o fod yn fygythiad i iechyd neu ddiogelwch un neu ragor o bobl a bod yr Ombwdsmon o'r farn y dylid ei datgelu er budd y cyhoedd."

Mewn perthynas â data personol categori arbennig, sail gyfreithiol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Erthygl 9 o GDPR y DU yw Erthygl 9(2)(g) – rhesymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd gyda sail gyfreithiol glir. Yr amod o fudd sylweddol i'r cyhoedd yw amod 6: at ddibenion statudol a dibenion y llywodraeth o dan Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018.

# Atodiad C

## Manylion cyswllt

| | |
|---|---|
| **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**<br>1 Ffordd yr Hen Gae<br>Pencoed<br>CF35 5LJ<br><br>Ffôn: 0300 790 0203 | **Y Cyngor Meddygol Cyffredinol**<br>Regent's Place<br>350 Euston Road Llundain<br>NW1 3JN<br><br>Ffôn: 0161 923 6602 |

Dyma enwau'r cysylltiadau rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol:

| **Prif Weithredwr/Ombwdsmon**<br>**(dylid dilyn polisïau uwchgyfeirio mewnol cyn eu cyfeirio at Brif Weithredwyr)** | |
|---|---|
| **Michelle Morris**<br><br>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Ebost: Marilyn.morgan@ombudsman.wales | **Charlie Massey**<br><br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd<br>Ebost: Ch.Massey@gmc-uk.org |

| **Cysylltiadau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** | |
|---|---|
| Ania Rolewska<br>Pennaeth Polisi, Cyfathrebu a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>Ffôn: 01656 644203<br>Ania.rolewska@ombudsman.wales | Andrew Richardson<br>Rheolwr Gwybodaeth a Dealltwriaeth<br>Ffôn: 0161 923 6665<br>Ebost: andrew.richardson@gmc-uk.org |

| **Cyngor Meddygol Cyffredinol Cymru (Ymholiadau nad ydynt yn ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer)** | |
|---|---|
| | Gethin Matthews-Jones<br>Pennaeth Cyngor Meddygol Cyffredinol Cymru<br>Ffôn: 0207 189 5042<br>Ebost: Gethin.Matthews-Jones@gmc-uk.org |

| Rheoli Gwybodaeth | |
|---|---|
| Alison Parker<br>Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth<br>Ffôn: 01656 644200<br>Ebost: information.request@ombudsman.wales | Andrew Leggard<br>Pennaeth Polisi Gwybodaeth<br>Ffôn: 020 7189 5418<br>Ebost: andrew.ledgard@gmc-uk.org |

| Cyfryngau | |
|---|---|
| Ania Rolewska<br>Pennaeth Polisi, Cyfathrebu a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>Ffôn: 01656 644203<br>Ania.rolewska@ombudsman.wales | Natalia Hannas<br>Pennaeth Newyddion – adweithiol<br>Ffôn: 020 7189 5041<br>Ebost: natalia.kannas@gmc-uk.org |